cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Canllaw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach 2025/26

Fe wnaiff y canllaw eich hysbysu am bopeth mae angen i chi ei wybod.

**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/gdllcab**

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Saesneg.
Ni fydd hyn yn arwain at oedi i anfon ymateb.

ALG/F/2526/CY/B

## Beth yw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach?

Mae'n darparu arian i helpu talu costau eich addysg os ydych yn 19 mlwydd oed neu'n hŷn. Os ydych yn astudio cwrs amser llawn, gallech gael taliadau gwerth hyd at £1,919 y flwyddyn, neu os ydych yn astudio cwrs rhan-amser, gallech gael hyd at £959 y flwyddyn.

## Pwy all gael y grant?

Mae angen i chi gyflawni'r gofynion canlynol i gael y grant:

### Oedran

I gael y grant hwn, rhaid i chi fod yn 19 mlwydd oed neu'n hŷn, felly yn achos blwyddyn academaidd 2025/26, rhaid i chi fod yn 19 mlwydd oed neu'n hŷn ar 1 Medi 2025.

### Cwrs

Rhaid i chi fod yn astudio ar gwrs cymwys. Mae cyrsiau cymwys yn cynnwys:

- TGAU
- Safon Uwch neu Uwch Atodol
- BTEC, GNVQ, NVQ
- Cyrsiau Sgiliau Sylfaenol
- Sgiliau Byw'n Annibynnol neu, os ydych chi'n astudio yn Lloegr, Paratoi ar gyfer Bywyd fel Oedolyn

Nid yw cyrsiau ar lefel 4 ac uwch yn gymwys. Gall eich ysgol neu eich coleg ddweud wrthych a yw eich cwrs yn gymwys.

Os cawsoch chi Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) wrth astudio ar gwrs oedd ar yr un lefel â'r cwrs yr ydych yn gwneud cais ar ei gyfer (neu oedd ar lefel uwch na'r cwrs hwnnw), ni fyddwch yn gymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) yn ystod y flwyddyn academaidd hon nac unrhyw flwyddyn academaidd yn y dyfodol.

### Cenedligrwydd a Phreswylfa

Os ydych yn un o ddinasyddion y DU ac yn byw yng Nghymru, dylech fod yn gymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach.

Os nad ydych yn ddinesydd y DU, efallai eich bod yn dal yn gymwys. Trowch at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/gdllcab** i gael rhagor o wybodaeth.

**Gadawyr Gofal**

Os ydych yn rhywun sy'n gadael gofal ac yn bodloni'r gofynion uchod, gallech fod yn gymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach.

# Incwm eich cartref

Dylai incwm eich cartref fod yn £18,370 neu’n llai er mwyn gallu cael y grant hwn.

Os ydych chi’n byw gyda’ch rhiant (neu rieni) mae hyn yn seiliedig ar yr uchaf o’ch incwm chi neu’ch rhiant (neu rieni).

Os nad ydych yn byw gyda’ch rhiant neu rieni, mae hyn yn seiliedig ar eich incwm chi.

Os ydych chi’n byw gyda’ch partner mae hyn yn seiliedig ar yr uchaf o’ch incwm chi neu’ch partner.

Os ydych chi’n rywun sy’n gadael gofal, fydd dim angen i chi roi unrhyw fanylion ariannol i ni.

## Faint allwn i gael?

Dengys y tabl isod faint allech chi gael ar sail incwm eich cartref a nifer yr oriau y byddwch yn astudio.

| Incwm Eich Cartref | Hawl | |
|---|---|---|
| | Astudio cwrs rhan-amser (rhwng 275 a 499 awr) | Astudio cwrs amser llawn (500 awr neu ragor) |
| £0 - £6,120 | £959 | £1,919 |
| £6,121 - £12,235 | £576 | £959 |
| £12,236 - £18,370 | £384 | £576 |
| £18,371 neu ragor | £0 | £0 |

Os yw incwm eich cartref yn £18,371 neu ragor, neu os byddwch yn astudio llai na 275 awr, ni fyddwch yn gallu cael y grant hwn.

Os byddwch yn dod yn gymwys ar gyfer y grant ar ôl i’r cwrs ddechrau, mae angen i chi lenwi ffurflen gais a byddwn yn asesu eich hawl.

Os gwnaethoch gais eisoes cyn i chi fod yn gymwys ac ni dderbyniwyd eich cais, mae angen i chi lenwi ffurflen gais newydd.

# 3 cam hawdd i gael eich grant

## 1

**Byddwch yn llenwi a dychwelyd eich cais.**

Dysgwch fwy yn:

**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

**Byddwn yn asesu eich cais ac yn anfon llythyr Dyfarnu Dros Dro atoch.**
Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd hyn yn dangos faint allech chi ei gael.

## 2

**Rydych yn llofnodi Cytundeb AB GDLIC.**

Unwaith y byddwch yn derbyn eich llythyr Dyfarniad Dros Dro, mae angen i chi lofnodi Cytundeb AB GDLIC yn eich ysgol neu goleg.

**Byddwn yn anfon llythyr Dyfarnu Terfynol atoch.**

Pan fydd eich ysgol neu goleg yn rhoi gwybod i ni eich bod wedi llofnodi'ch Cytundeb AB GDLIC, bydd eich llythyr Dyfarniad Terfynol yn dweud faint fyddwch chi'n ei gael.

## 3

**Byddwch yn mynychu eich cwrs a thelir yr arian i chi.**

**A ydych eisoes yn cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach?**
Nid oes angen i chi wneud dim. Byddwn yn cysylltu â chi yn y gwanwyn ynghylch eich grant am y cyfnod 2025/26

## Cam 1 – Ymgeisio

### Sut a phryd galla i ymgeisio?

Edrychwch ar ein gwefan am yr holl wybodaeth ddiweddaraf a diweddariadau ar sut a phryd i wneud cais yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/gdllcab**

Dylech ddychwelyd eich cais cyn gynted â phosibl ac mor bell o flaen llaw i ddyddiad cychwyn eich cwrs â phosibl.

**Dyddiad cwblhau terfynol**
Rhaid i ni dderbyn eich cais o fewn 9 mis i ddyddiad cychwyn eich cwrs.

### A fydd angen i mi anfon unrhyw beth gyda fy nghais?

Fel rhan o'ch cais, bydd angen i chi anfon y rhain atom:

- tystiolaeth o'ch hunaniaeth
- tystiolaeth o'ch cyfeiriad

Yn dibynnu ar eich sefyllfa bersonol, efallai bydd rhaid i chi anfon dogfennau ychwanegol hefyd, ond bydd y ffurflen gais yn dweud wrthych beth yn union ddylech chi ei anfon.

### Allaf i wneud cais os nad oes gennyf y dogfennau hyn?

Gallwch. Gallwch anfon eich cais atom heb y dogfennau hyn. Trwy wneud hyn, gallwn gychwyn prosesu eich cais ynghynt, ond ni fyddwn yn gallwn eich talu. Byddwn yn cysylltu â chi i gael y dogfennau y bydd arnom eu hangen ar ôl i chi ymgeisio. Mae angen i chi anfon eich tystiolaeth atom o fewn 12 mis o ddyddiad cychwyn eich cwrs.

## Cam 2 – Eich Cytundeb AB GDLIC

Dyma gytundeb rhyngoch chi a'ch ysgol neu goleg. Bydd yn manylu'r gofynion o ran presenoldeb a'r amcanion dysgu y bydd angen i chi eu cyflawni yn ystod eich cwrs i gael eich grant bob tymor.

Mae eich Cytundeb AB GDLIC yn unigryw i chi felly unwaith y byddwch wedi ymgeisio a chael eich llythyr Dyfarniad Dros Dro, dylech siarad gyda'ch ysgol neu goleg i drefnu a llofnodi eich cytundeb.

## Cam 3 – Cael taliad

Os byddwch yn mynychu'n unol â'r hyn a gytunwyd, cewch daliad unwaith bob tymor, yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd. Bydd angen i chi sicrhau fod gennym fanylion diweddaraf eich cyfrif, neu ni fyddwn yn gallu eich talu.

## Beth os bydd fy amgylchiadau'n newid?

Bydd angen i chi'n hysbysu'n syth os bydd unrhyw un o'ch manylion yn newid, yn cynnwys:

- Os bydd manylion eich cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd yn newid
- Os bydd eich manylion cyswllt yn newid
- Os bydd incwm eich cartref yn newid
- Os byddwch yn newid ysgol neu goleg

### Sut allaf i gysylltu â chi?

Gallwch ein ffonio ar **0300 200 4050.** Ein horiau agor yw dydd Llun i ddydd Gwener 8am hyd 6pm.

Ysgrifennwch at y tîm gwasanaeth cwsmeriaid yn:

Student Finance Wales
FE Customer Services
PO Box 5597
Glasgow
G52 9BS

# Fformatau eraill

Gallwch gael copïau o'n ffurflenni a'n canllawiau ar ffurfiau Braille, print bras neu sain. Gallwch ofyn am y rhain trwy e-bostio eich enw, cyfeiriad a manylion y fformat y mae ei angen arnoch at **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu ffoniwch **0141 243 3686**.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf a diweddariadau ynghylch y Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach ewch i'n gwefan:
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/gdllcab**